



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG43930

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Statws ffioedd cartref i'r rhai o Dirioogaethau Dibynnol ar y Goron

Statws ffioedd cartref a chapiau ar ffioedd dysgu i'r rhai sy'n symud o
Dirioogaethau Dibynnol ar y Goron i ddilyn cwrs yng Nghymru

Ionawr 2022

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Trosolwg

Crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar statws ffioedd cartref a chapeau ar ffioedd dysgu i'r rhai sy'n symud o Dirioogaethau Dibynnol ar y Goron i ddilyn cwrs yng Nghymru.

Cam gweithredu gofynnol

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

Gwybodaeth bellach a dogfennau perthnasol

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill..

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Addysg Uwch
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: HEdconsultation@llyw.cymru

Copïau Ychwanegol

Mae'r crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori wedi'u cyhoeddi yn electronig yn unig a gellir eu darllen ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen at y dogfennau ymgynghori: [Statws ffioedd cartref i fyfyrwyr o Dirioogaethau Dibynnol ar y Goron | LLYW.CYMRU](#)

Cynnwys

Cyflwyniad.....	4
Crynodeb	5
Ymatebion	6
Cwestiynau a themâu	7
Casgliadau a'r camau nesaf	9
Atodiad: Rhestr o'r ymatebwyr	10

Cyflwyniad

1. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y cynnig i ddiwygio rheoliadau penodol fel y bydd myfyrwyr sy'n symud o Ddibyniaethau'r Goron i ymgymryd â chyrsgiau penodol yng Nghymru yn gymwys i gael statws ffioedd cartref ac y bydd capiau ffioedd dysgu yn gymwys iddynt, mewn perthynas â chyrsgiau addysg uwch. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r themâu allweddol a welwyd yn yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwnnw ac yn darparu ymateb Llywodraeth Cymru iddynt.

Crynodeb

2. Roedd Gweinidogion Cymru yn ystyried diwygio rheoliadau penodol i ddileu'r darpariaethau sydd ar hyn o bryd yn atal person sy'n preswyllo fel arfer yn y DU, o ganlyniad i symud o Ddibyniaethau'r Goron i ymgymryd â chwrs yng Nghymru, rhag cael ei drin fel pe bai'n preswyllo fel arfer yn y DU. Bydd dileu'r darpariaethau hyn yn galluogi'r personau hynny i elwa ar statws ffioedd cartref ac, yn achos cyrsiau addysg uwch, ar gapiau ffioedd dysgu, ar yr amod eu bod hefyd yn bodloni'r holl feini prawf perthnasol eraill o ran cymhwysra.
3. Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng 2 Awst 2021 a 25 Hydref 2021. Derbyniwyd wyth ymateb. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r rhai a gymerodd amser i gyflwyno eu barn. Daeth amrywiaeth o safbwyntiau i law. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi cyflwyno'r pecyn fel y'i disgrifiwyd.
4. Ar ôl ystyried yr ymatebion, penderfynodd Llywodraeth Cymru ddiwygio'r rheoliadau fel y'u cynigiwyd.

Ymatebion

5. Ysgogodd yr ymgynghoriad wyth ymateb. Cafwyd ymatebion gan drawstoriad o'r cyhoedd a hefyd gan sefydliadau addysg uwch ('SAU'), undeb llafur, corff rheoleiddio ac amrywiaeth o gyrff cynrychioliadol, yn bennaf o fewn y sector addysg uwch yng Nghymru. Ceir rhestr o'r ymatebwyr yn atodiad A.

Cwestiynau a themâu

6. Gofynnwyd y cwestiynau isod i sefydlu barn ar y cynigion i ymestyn ffioedd cartref a'r cap ar ffioedd dysgu i fyfyrwyr sy'n symud o Diriogaethau Dibynnol ar y Goron i astudio yng Nghymru.

Dileu'r darpariaethau perthnasol

Cwestiwn 1. A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddileu'r darpariaethau perthnasol o Reoliadau 2007 a Rheoliadau CPC?

7. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn croesawu'r cynigion ac yn bositif ynghylch y polisi cyffredinol gydag un ymatebydd o'r fath yn dweud ei bod yn bwysig bod Myfyrwyr yn cael eu trin yr un fath yma ag yn Lloegr. Roedd dau ymatebydd yn anghytuno â'r cynigionac ni wnaeth un ymatebydd gynnig unrhyw farn ar y cynnig ond dywedodd y gallai fod goblygiadau ariannol posibl o ran rhoi'r cynnig ar waith.

Cyflwyno'r newid ar gyfer blwyddyn academiaidd 2022/23

Cwestiwn 2. A ydych yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno'r newid hwn ar gyfer blwyddyn academiaidd 2022/23 a'i wneud yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr sy'n dilyn neu'n cychwyn cyrsiau ar y dyddiad hwnnw? A ydym wedi nodi'r costau a'r manteision yn gywir?

8. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno'r newid ar gyfer blwyddyn academiaidd 2022/23. Nid oedd dau ymatebydd yn cytuno ond nid oeddent yn rhoi unrhyw reswm pam roeddent yn anghytuno.

Effeithiau ar y Gymraeg

Cwestiwn 3. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynnig hwn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar yr isod:

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg.

Pa effeithiau a fyddai, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

9. Ni roddwyd ymateb i'r cwestiwn hwn gan ddau ymatebydd. O'r chwech ymatebydd a atebodd, dywedodd tri na fyddai unrhyw effaith ar y Gymraeg. Nododd un ymatebydd fod nifer y myfyrwyr yn rhy fach i gael effaith ystyrlon, ac roedd gweddill yr ymatebwyr o'r farn y byddai effaith niweidiol ar y Gymraeg.

Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

Cwestiwn 4 Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn:

- i) cael effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- ii) peidio â chael effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

10. Llai na hanner yr ymatebwyr a atebodd y cwestiynau hyn. O'r tri a roddodd ateb, dywedodd un na fyddai unrhyw effaith tra bod un arall wedi dweud ei bod yn bwysig rhoi cyfle i fyfyrwyr ddysgu Cymraeg. Dywedodd un ymatebydd y dylid gwneud mwy i helpu poblogaeth Cymru.

Materion cysylltiedig

Cwestiwn 5. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw bwyntiau cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy'n benodol, rhowch wybod inni amdanynt yma:

11. Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ymateb i'r cwestiwn hwn. Nododd un ymatebydd y dylid ymestyn i fyfyrwyr o'r Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron y trefniadau presennol sy'n rhoi statws ffioedd cartref yng Nghymru i fyfyrwyr sydd fel arfer yn preswyllo yn y Tiriogaethau Tramor Prydeinig.

Casgliadau a'r camau nesaf

12. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac a roddodd o'u hamser i wneud hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion hyn yn ofalus. Mae mwyafrif clir yn cefnogi'r cynigion ac mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw'r materion a godwyd yn cyfiawnhau newid y cynigion hyn. Bydd Llywodraeth Cymru nawr yn ystyried diwygio rheoliadau i roi ar waith statws ffioedd cartref a chymhwystra ar gyfer y cap ar ffioedd dysgu ar gyfer blwyddyn academiaidd 2022.

Atodiad A

Rhestr o'r ymatebwyr

Dienw (5 ymateb)

Prifysgol Caerdydd

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)

Y Coleg Nyrsio Brenhinol